HMcpsi
Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron E M

HMIC
H M Inspectorate of Constabulary

# Heb gydsyniad

Crynodeb o'r adolygiad ar y cyd o'r broses
o ymchwilio i droseddau trais a'u herlyn

# CRYNODEB GWEITHREDOL

## Cefndir i'r adolygiad

Yn 2001, cynhaliodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) ac Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMCPSI) arolygiad thematig ar y cyd o'r broses o ymchwilio i droseddau trais a'u herlyn. Diben yr arolygiad hwnnw oedd dadansoddi ac asesu ansawdd gwaith yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron o ymchwilio i honiadau o drais, gwneud penderfyniadau arnynt a'u herlyn. Wrth wneud hynny, ei nod oedd canfod, os oedd yn bosibl, y rhesymau dros y gyfradd athreulio uchel a chynnig argymhellion i ymdrin â hyn.

Gwnaeth yr adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2002, gyfanswm o 18 o argymhellion a thri awgrym ar gyfer gwella:

- ymchwilio i achosion o drais gan yr heddlu;
- canllawiau a hyfforddiant i'r heddlu ac erlynwyr;
- ansawdd y cyngor a roddir, y penderfyniadau a wneir a'r gwaith o baratoi a chyflwyno achosion yn y llys gan erlynwyr;
- y ffordd y caiff dioddefwyr a thystion eu trin mewn achosion lle y ceir honiadau o drais.

Mewn ymateb, cyhoeddodd y Llywodraeth Gynllun Gweithredu Trais (y Cynllun) ym mis Gorffennaf 2002, gan dderbyn bron bob un o'r argymhellion a gyflwynwyd gan adroddiad HMIC/HMCPSI.

Er bod yr asiantaethau perthnasol wedi cytuno ar y Cynllun, mae ymchwil wedi parhau i roi darlun o gyfraddau athreulio cynyddol. O ganlyniad, ym mis Chwefror 2005, cytunodd y Swyddfa Gartref, yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, HMIC a HMCPSI ar broses dau gam o adolygu'r cynnydd a wnaed o ran y ffordd yr ymchwilir i adroddiadau o drais a'u herlyn, gan gynnwys:

- ymarfer cloriannu i asesu'r cynnydd a wnaed o ran y mesurau a nodwyd yn y Cynllun yn benodol;
- ymarfer dilynol i'r arolygiad thematig a gynhaliwyd yn 2002 i'w gynnal gan HMIC a HMCPSI.

Roedd yr ymarfer cloriannu, a gynhaliwyd ar y cyd gan y Swyddfa Gartref, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu a Chyfarwyddiaeth Bolisi Gwasanaeth Erlyn y Goron, yn cynnwys arolygon hunan-adrodd o heddluoedd, Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron a rhanddeiliaid allweddol. Nododd yr ymarfer cloriannu, a gwblhawyd ym mis Medi 2005, nifer o feysydd allweddol lle yr oedd cynnydd wedi'i wneud a bylchau o ran gweithredu. Felly, cynhaliwyd yr adolygiad hwn i asesu'r cynnydd a wnaed o ran yr argymhellion a'r awgrymiadau a gynigiwyd yn yr arolygiad a gynhaliwyd yn 2002, gan ystyried canfyddiadau ymarfer cloriannu'r Swyddfa Gartref, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron a chanfyddiadau Astudiaeth Ymchwil y Swyddfa Gartref, *A gap or a chasm? Attrition in reported rape cases*. Wrth wneud hynny, archwiliodd yr adolygiad arferion a gweithdrefnau

gwaith presennol er mwyn asesu ansawdd ac effeithiolrwydd ymchwiliadau ac erlyniadau a chadarnhau, lle y bo'n bosibl, y rhesymau dros y gyfradd athreulio uchel barhaus.

## Gosod y cefndir

Yn ystod yr arolygiad a gynhaliwyd yn 2002, canolbwyntiwyd yn fawr ar nodi a deall y rhesymau dros y gyfradd athreulio uchel mewn achosion o drais. Parhaodd y thema hon yn yr adolygiad presennol. Mae amcangyfrifon o waith ymchwil yn awgrymu na chaiff yr heddlu ei hysbysu byth o rhwng 75 a 95 y cant o droseddau trais. Dengys astudiaethau fod y penderfyniad i beidio â hysbysu'r heddlu yn aml yn seiliedig ar gyfuniad o ffactorau a bod llawer o'r rhain yn gysylltiedig â'r syniad o 'drais gwirioneddol' – hynny yw, a gyflawnir gan rywun dieithr, mewn man cyhoeddus neu yng nghyd-destun torri i mewn, ac yn cynnwys grym ac anaf.

I'r dioddefwyr hynny sy'n cysylltu â'r heddlu, ni fydd rhwng hanner a dwy ran o dair o'r achosion yn mynd ymhellach na'r cam ymchwilio; mae dioddefwyr sy'n gwrthod cwblhau'r broses gychwynnol neu sy'n tynnu'n ôl ar gam diweddarach yn cyfrif am nifer fawr o'r achosion hyn. Lle y cyfeirir achosion i erlynwyr wneud penderfyniad cyhuddo, ni fydd cyfran yn parhau. O'r achosion hynny nad ydynt yn cyrraedd y llys, bydd rhwng traean a hanner o'r rhain sy'n ymwneud ag oedolion yn arwain at ryddfarn.

Ceir lefelau athreulio uchel yng nghyd-destun cyfraddau datrys gostyngol hefyd. Er i gyfraddau datrys aros yn sefydlog fwy neu lai rhwng 1990 ac 1997, maent wedi gostwng yn sylweddol ers hynny ac yn parhau i wneud hynny. Er yr ymddengys bod y duedd hon yn arafu bellach, mae data HMIC ar gyfer y cyfnod 2001/02 i 2004/05 yn dangos y gostyngiad parhaus – o 41 i 37 i 31 i 30 y cant dros y cyfnod o bedair blynedd. Ar yr un pryd, cafwyd cynnydd graddol yn nifer yr achosion o drais yr hysbysir yr heddlu ohonynt ers mwy nag 20 mlynedd. Nid ymddengys bod y duedd hon yn arafu, gyda chynnydd yn yr achosion o drais a gofnodwyd dros yr un cyfnod o bedair blynedd o 40.9 y cant (o 9,734 i 13,712 o droseddau a gofnodwyd).

Ar eu pen eu hunain, mae'r ffigurau yn rhoi darlun trawiadol. Fodd bynnag, mae cyd-destun pwysig i'r data o ganlyniad i newidiadau yn y ffordd y caiff datrysiadau eu diffinio yn 1999 a chyflwyno'r Safon Cofnodi Troseddau Genedlaethol yn 2002. Bydd ehangu'r diffiniad o drais i gynnwys treiddiad rhefrol yn 1994 a threiddiad geneuol yn 2003 hefyd wedi effeithio ar droseddau a gofnodwyd, cyfraddau datrys a lefelau athreulio. Fodd bynnag, erys anhawster yn y ffaith nad yw effaith y newidiadau hyn erioed wedi'i harchwilio na'i mesur yn llawn.

Ers 2002, cafwyd nifer o ddatblygiadau sylweddol mewn polisi, y gyfraith ac arfer, ac mae sawl un o'r rhain wedi'u hanelu'n benodol at wella'r broses o ymchwilio i droseddau trais a'u herlyn. Ymhlith y rhain mae:

- cyflwyno cyhuddo statudol a'i weithredu ledled y wlad (a gwblhawyd ym mis Ebrill 2006), lle mae Erlynwyr y Goron bellach yn gyfrifol am

benderfynu a ddylid cyhuddo diffynnydd ai peidio mewn troseddau mwy difrifol, gan gynnwys trais;

- estyniadau i'r 'mesurau arbennig' sydd ar gael;
- Deddf Troseddau Rhywiol 2003, a newidiodd rai troseddau ac a roddodd rai rhagdybiaethau am faterion o ran cydsyniad;
- Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, sydd wedi darparu y gellir derbyn tystiolaeth o 'gymeriad drwg' y diffynnydd neu dystiolaeth achlust o dan rai amgylchiadau;
- cyhoeddi dogfen Gwasanaeth Erlyn y Goron *Policy for Prosecuting Cases of Rape* yn 2004 a dogfen Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu *Guidance on Investigating Serious Sexual Offences* yn 2005;
- creu'r Tîm Troseddau Rhywiol yng Nghyfarwyddiaeth Bolisi Gwasanaeth Erlyn y Goron ym mis Medi 2005;
- datblygu prosiect gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu i roi ymgynghoriaeth a chymorth i heddluoedd unigol er mwyn eu helpu i nodi bylchau mewn perfformiad ac ymdrin â hwy;
- cynnydd yn nifer y Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARCs) a chyhoeddi canllawiau ar y cyd gan y Swyddfa Gartref a'r Adran Iechyd;
- cymorth Cyfarwyddiaeth yr Heddlu a Safonau Troseddau i heddluoedd er mwyn iddynt fanteisio ar ddatblygiadau ym maes gwyddoniaeth fforensig i ailystyried achosion 'oer' a chyhoeddi *Good Practice Guide*;
- cyflwyno Unedau Gofal Tystion (WCUs) o dan y prosiect 'Dim Tyst, Dim Cyfiawnder'.

Yn ogystal, archwiliodd yr adolygiad hwn effaith nifer o'r datblygiadau hyn.

## Cofnodi troseddau gan yr heddlu

Ailystyriodd yr adolygiad arferion cofnodi troseddau'r heddlu yng ngoleuni'r anghysondebau mawr a nodwyd yn ystod yr arolygiad a gynhaliwyd yn 2002 o ran y ffordd yr oedd heddluoedd yn cofnodi adroddiadau o drais ac wedyn yn eu dosbarthu. Yn sgîl yr amrywiadau hyn, bu'n anodd mesur lefelau troseddau a chymariaethau ar draws heddluoedd yn gywir.

Er gwaethaf tynhau safonau o dan Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref (HOCR) a chyflwyno'r Safon Cofnodi Troseddau Genedlaethol, canfuwyd bod llawer o amrywiadau ar draws y safleoedd a adolygwyd yn parhau o hyd, sy'n adlewyrchu'r darlun cenedlaethol. Nodwyd bod lefel uchel o 'dim troseddu' yn peri pryder penodol, a chanfuwyd nad oedd 31.8 y cant o achosion o 'dim troseddau' a archwiliwyd yn ystod yr adolygiad yn cydymffurfio â Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref. Daethpwyd i'r casgliad bod arferion cofnodi amhriodol yn deillio o ddiffyg gwybodaeth am Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref neu eu camddehongli. Fodd bynnag, nodwyd dau ffactor pwysig sy'n dylanwadu ar y penderfyniadau 'dim troseddau' a wneir gan yr heddlu yn yr achosion hyn:

- y penderfyniad gan y dioddefwr i beidio â chwblhau'r broses gychwynnol neu i dynnu cefnogaeth yn ôl i'r ymchwiliad neu'r erlyniad; neu
- y farn nad oedd y dioddefwr yn gredadwy o ganlyniad i anghysondebau neu wahaniaethau yn ei adroddiad neu ffactorau eraill megis yfed alcohol neu ymddygiad, ond heb y 'wybodaeth y gellir ei chadarnhau na chyflawnwyd trosedd' fel sy'n ofynnol o dan Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref.

Gan fod 'dim troseddau' yn cynnwys y rhai a ddynodir yn 'honiadau ffug', sydd hefyd yn rhan o'r maen prawf 'gwybodaeth y gellir ei chadarnhau na chyflawnwyd trosedd', mae perygl bod y maen prawf hwn yn cael ei wanhau, sy'n cynyddu lefelau 'dim troseddu', ac sydd hefyd yn cynyddu canfyddiadau o nifer yr honiadau ffug ymhlith swyddogion yr heddlu. Mae methiant i lynu wrth feini prawf perthnasol Rheolau Cyfrif yr Heddlu hefyd yn gwyro ffigurau troseddau a gofnodwyd ar gyfer trais ac yn tanseilio'r gallu i gael dealltwriaeth gywir o athreulio. Yn ogystal, mae goblygiadau o ran colli gwybodaeth a chudd-wybodaeth lle y dosberthir adroddiad fel achos 'dim troseddu' a hynny'n anghywir, ac mae hefyd yn cynyddu'r posibilrwydd o danseilio credadwyedd dioddefwr lle y gwneir adroddiad wedi hynny.

Yn ogystal, canfuwyd amrywiadau mawr yn y cyfraddau datrys ar draws y safleoedd a adolygwyd, gan adlewyrchu'r darlun cenedlaethol unwaith eto a amrywiodd o 22.2 i 93.4 y cant yn 2001/02 ac o 7.0 i 60.4 y cant yn 2004/05. Yn sgîl hyn, ac amrywiadau parhaus mewn arferion cofnodi o dan Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref, rhwystrwyd ymdrechion i ddeall y gostyngiad mewn cyfraddau datrys. Mewn saith o'r wyth safle a adolygwyd, gwelwyd gostyngiad mewn cyfraddau datrys rhwng 2000 a 2005, ac, yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y gostyngiad hwn yn sylweddol. Yn y safle arall, canfuwyd bod y gyfradd ddatrys well yn gyfochrog â gwelliannau mewn safonau ymchwilio a'r flaenoriaeth a roddwyd i ymchwiliadau trais yn lleol, yn ogystal â phrosesau rheoli achosion a monitro perfformiad mwy cadarn.

Amlygodd yr adroddiad a gyhoeddwyd yn 2002 fod yr un a ddrwgdybir a'r dioddefwr yn adnabod ei gilydd, yn y rhan fwyaf o achosion – nododd dadansoddiadau o adroddiadau troseddau a gynhaliwyd yn ystod yr arolygiad hwnnw mai dim ond 14 y cant o achosion a oedd yn ymwneud â thrais gan rywun dieithr. Yn ogystal, amlygodd y cyfyng-gyngor dilynol y mae heddluoedd yn ei wynebu o ganlyniad i'r categorïau dosbarthu presennol o dan Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref – oni bai bod digon o dystiolaeth i gyhuddo'r un a ddrwgdybir, mae'n rhaid dosbarthu'r drosedd honno fel trosedd 'nad yw wedi'i datrys' o hyd, er gwaethaf y ffaith na chwilir am rywun arall o ran y drosedd – ac argymhellodd y dylid ailystyried meini prawf Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref ar gyfer dosbarthu troseddau 'sydd wedi'u datrys' ac 'nad ydynt wedi'u datrys' o dan yr amgylchiadau hyn.

Cafwyd canlyniadau tebyg wrth ddadansoddi adroddiadau troseddau yn ystod yr adolygiad presennol. Yn ogystal, nodwyd bod y sawl a ddrwgdybiwyd naill ai'n hysbys neu'n cael ei adnabod ar ôl ymchwiliad mewn 80 y cant o achosion a ddosbarthwyd fel rhai nad ydynt wedi'u datrys, gan amlygu'r angen i ailystyried yr argymhelliad a wnaed yn 2002.

### Strwythurau'r heddlu

Ar adeg yr adolygiad presennol, canfuwyd bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn y maes hwn, yn arbennig yn sgîl cyflwyno rôl ffurfiol y Swyddog a Hyfforddwyd yn Arbennig a datblygu Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol. Er nad yw hyfforddiant sydd wedi'i achredu'n genedlaethol i swyddogion sy'n ymdrin â dioddefwyr trais (fel yr argymhellwyd yn adroddiad 2002) wedi'i gyflwyno eto, ar y cyfan nodwyd bod hyfforddiant lleol yn dda ac, mewn rhai achosion, yn ardderchog. Fodd bynnag, nodwyd bylchau mewn perthynas â hyfforddiant gloywi a hyfforddi goruchwylwyr.

Mae Swyddogion a Hyfforddwyd yn Arbennig, sef swyddogion cangen lifrai hyfforddedig yn bennaf, yn rhan hanfodol ac annatod o'r tîm ymchwilio. Mae ganddynt amrywiaeth o gyfrifoldebau mewn perthynas â'r ymateb cychwynnol i adroddiad o drosedd rywiol ddifrifol, yr archwiliad meddygol fforensig, cynnal y cyfweliad â'r dioddefwr a chynnal cysylltiad â'r dioddefwyr mewn perthynas â'r cynnydd a wneir mewn achos. Canfuwyd bod y broses o gyflwyno rôl ffurfiol y Swyddog a Hyfforddwyd yn Arbennig wedi gwella ansawdd yr ymateb cychwynnol i ymchwiliadau trais yn sylweddol; fodd bynnag, nodwyd nifer o anawsterau mewn perthynas â'u rheoli, eu goruchwylio a'u lleoli.

Canfuwyd bod rhestrau galw allan a rotâu Swyddogion a Hyfforddwyd yn Arbennig yn cael eu rheoli'n wael a bod y broses o'u lleoli yn tueddu i fod yn seiliedig ar y swyddog a oedd ar gael yn haws, waeth beth fo'i lwyth gwaith craidd, ei dymor dyletswydd neu ei ymrwymiadau presennol fel Swyddog a Hyfforddwyd yn Arbennig. Yn ogystal, cafwyd tuedd i geisio gwasanaethau Swyddogion a Hyfforddwyd yn Arbennig gyda phrofiad sicr, gan olygu y galwyd ar graidd bach o swyddogion dro ar ôl tro. Nid oedd llawer o oruchwylwyr yn deall rôl y Swyddog a Hyfforddwyd yn Arbennig, ac yn aml, yn sgîl pwysau ar Swyddogion a Hyfforddwyd yn Arbennig gan reolwyr llinell tîm craidd i ddychwelyd i alwadau plismona ymateb, roedd swyddogion yn teimlo eu bod wedi'u rhwygo rhwng y ddwy rôl. Unwaith y cawsant eu lleoli, roedd tystiolaeth glir bod Swyddogion a Hyfforddwyd yn Arbennig yn darparu gwasanaeth da o fewn eu gallu, ond canfuwyd bod galwadau deublyg a diffyg cymorth yn tanseilio morâl ac effeithlonrwydd.

O ganlyniad, mae angen i heddluoedd adolygu rhestrau galw allan a rotâu, monitro'r ffordd y lleolir Swyddogion a Hyfforddwyd yn Arbennig yn ffurfiol ac adolygu strwythurau goruchwylio er mwyn sicrhau y diffinnir cyfrifoldeb rheoli llinell dros Swyddogion a Hyfforddwyd yn Arbennig ar ôl eu lleoli ac yn ystod ymchwiliadau yn glir.

## Ymateb cyntaf

Mae swyddogion ymateb cyntaf yn ymgymryd â rôl y Swyddog Ymchwilio hyd nes y dyrennir yr achos i Swyddog a Hyfforddwyd yn Arbennig ac y penodir Swyddog Ymchwilio. Felly, nid yw eu rôl yng nghamau cyntaf ymchwiliad yn llai pwysig na rôl swyddogion arbenigol ac ymchwilwyr.

Canfuwyd nad oedd swyddogion rheng flaen wedi cael fawr ddim hyfforddiant o ran ymateb i droseddau trais a bod diffyg ymwybyddiaeth o ganllawiau Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu. O ganlyniad, pan fu'n rhaid i swyddogion ymateb cyntaf wrando ar gŵyn gyntaf neu gŵyn gynnar y dioddefwr, yn aml nid oedd ganddynt yr hyder a'r wybodaeth i ymdrin â hyn yn effeithiol; amlygwyd hyn fel maes lle yr oedd angen canllawiau penodol.

Canfuwyd hefyd fod y defnydd o Becynnau Tystiolaeth Gynnar yn amrywio. Cyflwynwyd Pecynnau Tystiolaeth Gynnar i adfer samplau fforensig nad ydynt yn bersonol yn ddi-oed gan swyddogion ymateb cyntaf yr heddlu ac aelodau o staff yr heddlu sy'n ymdrin â dioddefwyr cyn yr archwiliad meddygol. Nid oedd lleoliad y Pecynnau Tystiolaeth Gynnar yn diwallu angen bob amser, roedd y broses o reoli a dyrannu'r pecynnau yn anghyson, ac roedd yr hyfforddiant yn amrywio.

Canfuwyd bod lefelau cyffredinol o ymwybyddiaeth fforensig yn dda, er y nodwyd mai prin oedd y wybodaeth fwy arbenigol, a chafwyd tystiolaeth o rai o'r safleoedd adolygu yr ymwelwyd â hwy bod hyfforddiant ymwybyddiaeth fforensig mewn perthynas â throseddau cyffredin yn ychwanegu gwerth mewn meysydd eraill. Unwaith eto, fodd bynnag, roedd gwybodaeth a dealltwriaeth yn amrywio.

## Ymchwiliad effeithiol

Dengys ymchwil fod llawer o achosion o athreulio yn digwydd yn ystod y broses ymchwilio. Mae rhai o'r achosion hyn yn ymwneud â materion ymarferol megis argaeledd ymarferwyr sy'n ferched (yn arbennig meddygon fforensig), oedi cyn trefnu archwiliadau meddygol neu yn ystod yr ymchwiliad ei hun, ac amgylcheddau annymunol. Mae rhai yn ymwneud ag ymddygiad ac ymagwedd gweithwyr proffesiynol, megis holi ansensitif yn ystod y cyfweliad, agweddau beirniadol neu anghrediniol, neu fethiant i gynnal cysylltiad wrth i'r achos fynd yn ei flaen. Mae rhai yn ymwneud ag ofnau dioddefwyr, megis ofn proses y llys a'r posibilrwydd o gael eu holi mewn ffordd ymwthiol yn gyhoeddus, neu ofn rhyddfarn. Mae hyn yn pwysleisio'r cyfraniad pwysig y gall sensitifrwydd i'r angen am breifatrwydd, ymdeimlad o ddiogelwch, hyder ym mhroffesiynoldeb y staff a hinsawdd o gred ei wneud i sicrhau bod dioddefwyr yn parhau i gymryd rhan mewn prosesau anodd.

Mae'r cyfweliad â'r dioddefwr yn allweddol i'r ymchwiliad ac, ym mhob un o'r safleoedd adolygu yr ymwelwyd â hwy, y Swyddog a Hyfforddwyd yn Arbennig a oedd yn gyfrifol am gael y datganiad llawn. Cafwyd tuedd gynyddol i gyfweld â dioddefwyr trais sy'n oedolion gan eu recordio ar fideo. Canfuwyd bod hyn wedi

datblygu mewn ffordd anstrwythuredig a nodwyd nifer o anawsterau o ganlyniad i hyn. Ymhlith y rhain roedd:

- disgwyliadau uwch ar ran y dioddefwyr na fydd yn rhaid iddynt roi tystiolaeth fyw;
- materion o ran pa un a gaiff y fideo ei drin wedyn fel deunydd nas defnyddiwyd neu arddangosyn;
- yr angen i baratoi datganiad tyst ysgrifenedig yn seiliedig ar y recordiad, a all fod yn broses hir a llafurus;
- yr angen i ystyried manylion sensitif yn y cyfweliad yn fwy gofalus;
- erlynwyr yn peidio â manteisio ar y cyfle i wylio cyfweliad dioddefwr lle mae datganiad tystiolaethol wedi'i ddisodli.

Nodwyd pryderon hefyd mewn perthynas ag ansawdd cyfweliadau a recordiwyd ar fideo, ynghyd â materion technegol megis microffonau yn y lle anghywir ac onglau camera uchel, ac ansawdd yr offer, gan gynnwys yr offer a ddefnyddir yn y llys. Felly, mae angen i Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron ailystyried y gweithdrefnau ar gyfer cymryd datganiad dioddefwr mewn achosion o drais, gan ystyried y gwaith o werthuso'r cynlluniau peilot ar gyfer y mesurau arbennig perthnasol a dyletswyddau o ran datgelu deunydd nas defnyddiwyd.

Fel yr amlygwyd eisoes, o ran troseddau trais, mae'r dioddefwr a'r un a ddrwgdybir yn adnabod ei gilydd yn y rhan fwyaf o achosion. Mae hyn yn golygu mewn nifer fawr o achosion mai cydsyniad yn hytrach nag adnabod yw'r prif fater tystiolaethol. Wrth archwilio'r broses ymchwilio, canfuwyd bod angen i amddiffyniadau 'cydsyniad' gael eu herio'n fwy trylwyr a bod angen ystyried y defnydd o dystiolaeth 'cymeriad drwg' yn fwy. Mae angen i gyfweliadau â'r rhai a ddrwgdybir gael eu cynllunio'n well ac mae'n rhaid i gyfwelwyr gael eu hyfforddi'n briodol. Mae canllawiau Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yn nodi y dylid hyfforddi cyfwelwyr i 'Haen 3' (lefel arbenigol); fodd bynnag, ni chanfuwyd bod hyn yn gyffredin yn ymarferol.

Yn ogystal, mae angen gwaith cynllunio gwell mewn perthynas â chasglu tystiolaeth a datblygu strategaethau fforensig, er mwyn sicrhau nid yn unig y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd fforensig, ond yr archwilir yn llawn i gyfleoedd i gasglu mathau eraill o dystiolaeth, megis olion bysedd. Mae gan oruchwylwyr ran allweddol i'w chwarae drwy gydol y broses ac, yn arbennig, mae adolygiadau goruchwylio yn bwysig i gynnal momentwm mewn ymchwiliadau a rhoi cyfeiriad lle y bo angen.

Yn sgîl pwysigrwydd cynyddol gwyddoniaeth fforensig mewn ymchwiliadau, mae rhai heddluoedd wedi sefydlu cytundebau lefel gwasanaeth (CLG) gyda darparwyr fforensig i reoli'r prosesau yn well. Gall y rhain roi mynediad 24 awr at wyddonydd, cyngor ar yr agweddau fforensig ar yr ymchwiliad, cytundebau ar ansawdd cyflwyniadau ac amser cwblhau achosion, ac adolygiad rheolaidd o berfformiad fforensig ar draws achosion, ynghyd ag adborth a hyfforddiant

pwrpasol. Lle y cytunwyd ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth, cafodd y gwyddonydd wybodaeth o ansawdd gwell am yr achos, a chafwyd gwelliant yn ansawdd y dystiolaeth a gyflwynwyd a lleihad mewn amseroedd cwblhau ar gyfer arddangosion; felly, argymhellir cytundebau o'r fath yn gryf.

## Archwiliadau meddygol fforensig

Codwyd pryderon yn ystod yr arolygiad a gynhaliwyd yn 2002 am berfformiad a hyfforddiant meddygon fforensig a'r gwaith o'u rheoli ac ailystyriwyd y materion hyn yn ystod yr adolygiad presennol.

Nid oedd fawr ddim cysondeb yn y ffordd y cyflogwyd meddygon fforensig, ac mae tuedd gynyddol i roi'r gwasanaethau hyn ar gontract i fentrau preifat. Unwaith eto, amlygwyd y pryderon a godwyd yn yr arolygiad a gynhaliwyd yn 2002, ynghyd â materion yn ymwneud ag argaeledd meddygon fforensig (yn arbennig pediatregwyr), oedi cyn cynnal archwiliadau, arbenigedd amrywiol ac anghysondebau eang yn y gwasanaeth a gynigir i ddioddefwyr. Canfuwyd bod safonau cyfleusterau archwilio meddygol yn amrywiol iawn hefyd, er gwaethaf argymhelliad yn yr adroddiad ar yr arolygiad a gynhaliwyd yn 2002 y dylid eu hadolygu.

Nodwyd arferion da yn yr Haven yn Llundain, lle mae gwasanaethau iechyd lleol yn cymryd rhan yn y gwaith o reoli'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol. Mae gan y cyfarwyddwr clinigol, sy'n feddyg, gyfrifoldeb cyffredinol am reoli perfformiad, hyfforddiant a gwaith llywodraethu clinigol y meddygon fforensig, ac mae rheolwr y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn gyfrifol am redeg y ganolfan o ddydd i ddydd. Yn ogystal, ceir rhaglen wedi'i chynllunio o hyfforddiant i feddygon fforensig, y mae'n ofynnol iddynt gynnal dau archwiliad, cwblhau asesiad o sgiliau a chyflawni nifer ofynnol o archwiliadau o dan oruchwyliaeth cyn ystyried a allant ymarfer ar eu pennau eu hunain. Yr eithriad oedd hwn, fodd bynnag.

Mae'n bwysig y rhoddir y dystiolaeth lawn yn yr achos i feddygon fforensig pan ofynnir iddynt roi tystiolaeth arbenigol. Dylid eu gwahodd i fynychu unrhyw gynhadledd achos a, lle y bo'n briodol, fynd i'r llys i roi tystiolaeth.

## Erlyniad effeithiol

Argymhellodd yr adroddiad a gyhoeddwyd yn 2002 y dylid dyrannu pob achos trais i gyfreithwyr arbenigol, a chysylltodd hyn â'r posibilrwydd o gael erlynydd arweiniol ym mhob Ardal neu uned dreialon. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi ymateb drwy gyflwyno cydgysylltwyr trais Ardal, a fu'n gam cadarnhaol iawn. Yn ogystal, mae erlynwyr trais arbenigol wedi'u cyflwyno gan Wasanaeth Erlyn y Goron a, lle mae'r rolau hyn wedi'u gweithredu'n effeithiol, mae cydgysylltwyr trais ac erlynwyr trais arbenigol wedi datblygu llawer o arbenigedd yn y gwaith o erlyn troseddau trais.

Fodd bynnag, nid oes meini prawf ar gyfer dethol cydgysylltwyr ac erlynwyr trais arbenigol ac nid oes safonau cymhwysedd gofynnol, gan arwain at wybodaeth ac arbenigedd ymarferol amrywiol. Cyhoeddodd Gwasanaeth Erlyn y Goron

dasgau allweddol i gydgysylltwyr, gan gynnwys rhai gofynion hyfforddi safonol, ym mis Mehefin 2006. Erys yr angen i Wasanaeth Erlyn y Goron bennu safon ar gyfer rôl cyfreithiwr arbenigol ym maes trais, cyflwyno hyfforddiant priodol a sicrhau cyfranogiad parhaus mewn achosion er mwyn sicrhau arbenigedd gwirioneddol. Yn ogystal, mae angen gwella rôl y cydgysylltydd trais Ardal drwy ddiffinio'r profiad a'r cymhwysedd sydd eu hangen, a thrwy ddyrannu amser penodol i'r rôl.

## Gwneud penderfyniadau cyn cyhuddo

Mae'r trefniadau cyhuddo statudol yn darparu i erlynwyr ar ddyletswydd roi cyngor cyn cyhuddo a gwneud penderfyniadau o ran a ddylid cyhuddo mewn achosion difrifol megis trais. Yn ddelfrydol, dylid gwneud hyn wyneb yn wyneb mewn canolfannau cyhuddo, neu o leiaf drwy drafodaeth rhwng y swyddog ymchwilio a'r erlynydd dros y ffôn. Ystyrir achosion brys y tu allan i oriau swyddfa gan CPS Direct, lle mae erlynwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron yn darparu cyfleuster dros y ffôn neu'r ffacs. Yn ymarferol, y ffordd o ymdrin â llawer o achosion o drais o hyd yw bod yr heddlu yn cyflwyno ffeil dystiolaeth gyda chais ffurfiol am gyngor i un o swyddfeydd Gwasanaeth Erlyn y Goron, a rhoddir y cyngor yn ysgrifenedig.

Mae cyflwyno trefniadau cyhuddo statudol yn hwyluso gallu ymchwilwyr yr heddlu ac erlynwyr i rannu arbenigedd ar gam cynnar yn yr ymchwiliad. Fodd bynnag, erys yr angen i wella cysylltiad cynnar rhwng yr heddlu ac erlynwyr a datblygu ymagwedd tîm tuag at adeiladu achosion. Mae angen sicrhau y caiff cyngor ei geisio a'i roi yn amserol hefyd.

## Adolygu a gwneud penderfyniadau

Polisi Gwasanaeth Erlyn y Goron yw mai arbenigwr trais a ddylai roi tystiolaeth; fodd bynnag, canfuwyd na ddilynid hyn yn gyson. Dylai'r arbenigwr trais a wnaeth y penderfyniad i gyhuddo barhau i reoli'r achos o'r dechrau i'r diwedd, er y bydd y cwnsler yn erlyn yn Llys y Goron o bosibl. Datgelodd archwiliad o sampl o ffeiliau achos yn ystod yr adolygiad hwn nad oedd hyn yn digwydd yn ddigon aml, ac roedd hyn yn anfoddhaol.

Mae angen sicrhau y cynhelir cynhadledd gyda chwnsler y treial a'r swyddog yn yr achos ym mhob achos lle y ceir honiad o drais. Dylid cynnal y gynhadledd fel rhan o barhad tîm cryf yr erlyniad, a fu'n gweithio gyda'i gilydd i adeiladu a datblygu achos cryf drwy gydol ei hynt drwy'r system cyfiawnder troseddol. Yn benodol, mae'n hanfodol cynnal cynhadledd bob tro i ddadansoddi'r dystiolaeth ac i archwilio ffyrdd o oresgyn anawsterau cyn gwneud penderfyniad i roi'r gorau i'r achos ar gam hwyr.

Dylid cofnodi cymeradwyaethau adolygu ar system rheoli achosion electronig Gwasanaeth Erlyn y Goron (Compass CMS). Dylai cymeradwyaeth yr erlynydd gofnodi pa un o'r ddau brawf cyngor cyn cyhuddo a gymhwyswyd yn yr adolygiad cychwynnol, ac wedyn asesiad manwl o'r dystiolaeth sydd ar gael. Fodd bynnag, canfuwyd bod ansawdd y cymeradwyaethau adolygu yn is na'r cylch adroddiadau cyffredin lle yr ystyriodd HMCPSI amrywiaeth lawn o

achosion, ac mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau'r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2002. Felly, mae angen i Wasanaeth Erlyn y Goron gynhyrchu a dosbarthu rhestr wirio trais i hyrwyddo ystyriaeth o bob mater perthnasol ar y cam cyngor.

O ganlyniad i gyhuddo statudol, disgwylir i erlynwyr wneud cyfraniad mawr i adeiladu achosion. Dylai'r erlynydd arbenigol roi cymorth ac ychwanegu gwerth drwy ddefnyddio cynllun gweithredu manwl sy'n nodi unrhyw waith pellach sydd ei angen i adeiladu'r achos. Canfuwyd bod rhai cyfreithwyr yn rhagweithiol iawn yn y gwaith o adeiladu achosion. Fodd bynnag, er gwaethaf gwaith adolygu o safon uchel mewn nifer o achosion, roedd y perfformiad cyffredinol yn amrywio, ac o ganlyniad, gwnaed rhai penderfyniadau i roi'r gorau i waith (dim camau pellach) yn rhy gynnar mewn rhai achosion.

Bu datblygiadau yn y gyfraith yn ymwneud â derbyn tystiolaeth achlust a thystiolaeth 'cymeriad drwg' diffynnydd yn destun canllawiau a hyfforddiant a roddwyd i erlynwyr. Mae angen ystyried yr agweddau hyn ar y cam gwneud penderfyniadau yn fwy gofalus. Yn ogystal, mae angen i'r heddlu ac erlynwyr edrych y tu hwnt i gollfarnau blaenorol wrth ystyried tystiolaeth o ran 'cymeriad drwg'.

Argymhellodd yr adroddiad a gyhoeddwyd yn 2002 y dylai cwnsler y treial baratoi adroddiad ysgrifenedig mewn unrhyw achos sy'n arwain at ryddfarn a thrafod unrhyw wersi i'w dysgu gyda'r heddlu. Nid yw'r argymhelliad hwn wedi'i gyflawni. Yn ogystal, ni wneir llawer o ddefnydd o sesiynau ôl-drafod ar ôl i dreial ddod i ben, gan olygu y caiff cyfleoedd i'r heddlu ac erlynwyr ddysgu o brofiad eu colli mewn achosion llwyddiannus ac aflwyddiannus.

## Paratoi achosion

Mae datgelu deunydd nas defnyddiwyd yn arbennig o bwysig wrth erlyn troseddau trais. Mae natur y troseddau yn golygu nad oes tystion eraill heblaw am y dioddefwr yn aml, sy'n golygu y dibynnir yn sylweddol ar gredadwyedd y dioddefwr. Efallai y bydd deunydd nas defnyddiwyd yn cynnwys gwybodaeth gefndir er mwyn gallu profi'r credadwyedd hwnnw, ac mae'n bwysig bod erlynwyr yn cydymffurfio â Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996, nid yn unig i sicrhau y gwneir datgeliad llawn lle y bo'n briodol, ond hefyd i sicrhau nad ydynt yn datgelu deunydd personol sensitif (megis cofnodion meddygol) nad yw wedi'i gynnwys o dan delerau'r Ddeddf honno.

Canfuwyd bod perfformiad mewn perthynas â datgeliad cychwynnol neu ragarweiniol a datgeliad parhaus neu eilaidd ychydig yn is na chylch arolygu Ardal diwethaf HMCPSI. Mae angen gwella amseroldeb mewn perthynas ag ymdrin â datgelu deunydd a gedwir gan drydydd partïon. Fodd bynnag, cafwyd tystiolaeth o welliant mawr mewn perthynas â datgelu deunydd sensitif ers yr arolygiad a gynhaliwyd yn 2002.

Anaml y bydd hanes rhywiol blaenorol y dioddefwr yn berthnasol (cyfyngir ar y ffordd y gall diffynnydd gyflwyno neu holi dioddefwr drwy rinwedd adran 41 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999, ac mae pa un a

oes angen ei ddatgelu ai peidio yn dibynnu ar yr achos unigol. Dylid sicrhau na chaiff ei ddatgelu'n ddiangen am ei fod wedi'i gynnwys mewn datganiad tyst ac wedyn ei dderbyn mewn tystiolaeth oherwydd defnyddir y datganiad yn y treial. Mae'n bwysig bod yr erlynydd yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol am hanes rhywiol blaenorol y dioddefwr a allai arwain at gais iddi gael ei derbyn, a dylid cofnodi hynny ar wahân.

Dylid cyflwyno ceisiadau ysgrifenedig o dan adran 41 o Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 o fewn 28 diwrnod i draddodi neu hysbysiad trosglwyddo. Dylai hyn sicrhau y gwneir ceisiadau dilys ac ystyrlon a dylai alluogi'r erlyniad i ymateb mewn modd hyddysg. Datgelodd ymchwil a gyflawnwyd ar ran y Swyddfa Gartref ac a gyhoeddwyd yn 2006 (*Section 41: An evaluation of new legislation regarding sexual history evidence in rape trials*) i'r mwyafrif helaeth o geisiadau gael eu gwneud yn y treial ac nas cyflwynwyd yn ysgrifenedig.

Mae'r defnydd o dîm cryf yr erlyniad i adeiladu a rheoli achos yn rhagweithiol yn bwysig. Mae cwnsler yr erlyniad, pan y'i cyfarwyddir, yn rhan o'r tîm hefyd. Bydd cyfarwyddiadau da i'r cwnsler yn cynnwys dadansoddiad llawn o'r dystiolaeth, gan nodi'r materion yn yr achos, a bydd yn nodi a fyddai pledion euog yn dderbyniol pe bai'r diffynnydd yn pledio i drosedd lai difrifol neu dim ond i rai o'r cowntiau ar y ditiad. Dylai'r cyfarwyddyd olaf hwn nodi barn y cyfreithiwr adolygu (arbenigol) ac atal oedi a achosir gan yr angen i gysylltu â'r cyfreithiwr i gael cyfarwyddiadau yn y llys.

Cafwyd tystiolaeth yn sgîl darllen ffeiliau bod perfformiad mewn perthynas â chyfarwyddiadau i'r cwnsler wedi gwella ers yr arolygiad a gynhaliwyd yn 2002, er nad yw wedi gwella digon. Am mai arbenigwyr sy'n ymdrin ag achosion o drais, ac am ei bod yn bwysicach ymdrin â'r materion dan sylw mewn ffordd sensitif yn yr achosion hyn nag mewn llawer o fathau eraill o achosion, dylai'r cyfarwyddiadau fod o safon well.

## Yr achos yn y llys

Pan fydd gweithwyr achos Gwasanaeth Erlyn y Goron yn mynd i Lys y Goron i helpu'r cwnsler ac eiriolwyr llys uwch, maent yn rhoi cymorth gweinyddol, yn ymdrin â pharhad tystiolaeth ac arddangosion ac yn chwarae rhan o ran gofal tystion. Mae'r cymorth a roddir gan weithwyr achos Gwasanaeth Erlyn y Goron yn y llys mewn achosion o drais yn amrywio ar draws yr Ardaloedd. Nododd yr adroddiad a gyhoeddwyd yn 2002 fod presenoldeb y gweithiwr achos yn y llys drwy gydol y treial yn enghraifft o arfer da, ac mae rhai Ardaloedd wedi ceisio cyflwyno hyn. Fodd bynnag, mewn rhai Ardaloedd, dim ond ar ddiwrnod cyntaf y treial neu, ar y gorau, pan fydd y dioddefwr yn rhoi tystiolaeth, y mae'r gweithiwr achos yn bresennol yn aml. Mewn Ardaloedd eraill, mae gweithwyr achos yn gweithio mewn nifer o lysoedd ar yr un pryd, ac felly mae unrhyw gymorth a roddir i'r cwnsler a'r dioddefwr mewn treial trais yn gyfyngedig.

Lle yr oedd gweithwyr achos wedi mynd i'r llys drwy gydol y treial, cafwyd enghreifftiau ardderchog o nodiadau treial yn cael eu gwneud gan y gweithwyr

achos a oedd yn rhoi cofnod llawn o'r dystiolaeth a roddwyd ac o unrhyw geisiadau a wnaed yn ystod y treial. Yn ogystal, cynigiodd y cwnsler a'r farnwriaeth sylwadau ar yr effaith gadarnhaol a gaiff presenoldeb y gweithiwr achos o ran cynnal yr achos yn ddidrafferth. Cadarnhawyd hyn gan arsylwadau llys a gyflawnwyd yn ystod yr adolygiad hwn.

Mae'n anodd erlyn achosion o drais ac, oherwydd eu natur, mae angen sgiliau trin tystion sensitif a gofalus. Gallant hefyd gynnwys materion cymhleth o ran datgelu. Yn aml, mae achosion sy'n ymwneud â chydsyniad yn arbennig o heriol eu herlyn, ac mae angen llawer o sgil a gofal. Felly, mae angen sicrhau y dewisir cwnsleriaid yn seiliedig ar wybodaeth lawn o'u harbenigedd a'u profiad. Mae nifer o resymau pam y gallai'r cwnsleriaid a gyfarwyddwyd yn wreiddiol fod mewn sefyllfa sy'n golygu nad ydynt ar gael i barhau â'r achos, gan gynnwys arferion rhestru a threialon eraill sy'n rhedeg y tu hwnt i'r amser a ddyrannwyd yn wreiddiol. Roedd nifer uchel o friffiau a ddychwelir yn parhau i ddigwydd mewn achosion o drais. Dylai fod parhad o ran cwnsleriaid, yn ogystal ag o ran yr erlynydd arbenigol, drwy gydol yr achos.

Er mai prin oedd yr arsylwadau llys yn ystod yr adolygiad, roedd y cwnsleriaid a welwyd yn broffesiynol ac wedi paratoi'n dda. Roedd safonau eiriolaeth a gwaith holi dioddefwyr sensitif yn rhagorol. Fodd bynnag, ar y cyfan, ni chaiff eiriolwyr trais eu monitro'n ffurfiol o hyd, er gwaethaf argymhelliad yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn 2002. Mae sicrhau safonau eiriolaeth a gwaith paratoi achosion ym mhob achos yn hanfodol er mwyn sicrhau y caiff achosion o drais eu trin yn briodol.

Fel arfer, gwrandewir achosion yn Llys y Goron y'u hanfonir iddo. Fodd bynnag, mae'r arfer o drosglwyddo achosion o un ganolfan Llys y Goron i ganolfan arall yn digwydd mewn rhai Ardaloedd. Er y gall hyn fod oherwydd anghenraid logistaidd, gall beri niwed gwirioneddol i'r dioddefwr, yn arbennig pan fydd ymarfer ymgyfarwyddo â llys wedi'i gyflawni ar gyfer y llys a restrwyd yn wreiddiol. Gall effeithio ar y ddarpariaeth o fesurau arbennig y cytunwyd arnynt eisoes hefyd.

## Dioddefwyr a thystion

Amlygodd yr adroddiad a gyhoeddwyd yn 2002 fod y ffordd y caiff dioddefwyr trais eu trin drwy gydol y broses ymchwiliol yn allweddol er mwyn sicrhau collfarn, ac y byddai rhoi gwybodaeth yn barhaus i'r dioddefwr, ynghyd â chyswllt, darparu mesurau arbennig ac ystyriaeth, oll yn ffactorau pwysig i wella ansawdd y dystiolaeth a roddir ar ran yr erlyniad.

Ers hynny, mae'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cyflwyno trefniadau gofal dioddefwyr a thystion drwy'r fenter 'Dim Tyst, Dim Cyfiawnder', ac mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi datblygu ei gynllun Cyfathrebu'n Uniongyrchol â Dioddefwyr (DCV) i esbonio'r sefyllfa pan gaiff cyhuddiad ei dynnu'n ôl, ei ddirwyn i ben neu ei newid yn sylweddol.

Nododd Addewid 10 pwynt yr Erlynwyr, a gyflwynwyd gan y Twrnai Cyffredinol ar 21 Hydref 2005, a'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr, a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref o dan Ddeddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004 ar 4 Ebrill 2006, ymrwymiadau a lefelau gwasanaeth gofynnol i'w rhoi i ddioddefwyr. Mae'r Cod i Ddioddefwyr yn darparu bod dioddefwr trosedd rywiol yn gymwys i gael mwy o gymorth.

Er gwaethaf sefydlu Unedau Gofal Tystion, mewn rhai Ardaloedd, nid oedd yn glir pwy a oedd yn gyfrifol am gysylltu â'r dioddefwr trais ar bob cam a beth y dylid ei ddweud wrth y dioddefwr. Cafwyd rhywfaint o ddyblygu o ran cyfathrebu gan yr Uned Gofal Tystion, yr heddlu, Cymorth i Ddioddefwyr a'r Gwasanaeth Tystion, ond cafwyd enghreifftiau hefyd o'r dioddefwr yn cael ychydig iawn o wybodaeth, os o gwbl, o ganlyniad i ddiffyg eglurder o ran rolau. Roedd ymwybyddiaeth o'r cynllun Cyfathrebu'n Uniongyrchol â Dioddefwyr ymhlith cyfweleion Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dda, ond nododd y gwaith o ddarllen ffeiliau le sylweddol i wella wrth ymgynghori â dioddefwyr yn unol â'r cynllun.

Yn ystod camau cychwynnol yr ymchwiliad, yr heddlu, ac, yn benodol, y Swyddog a Hyfforddwyd yn Arbennig – weithiau ar y cyd â'r Swyddog Ymchwilio – sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff dioddefwyr y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran ymholiadau. Cafwyd tystiolaeth dda o'r cyfweliadau o fwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cyswllt i sicrhau na chollir ymgysylltiad â'r dioddefwyr, yn arbennig ymhlith Swyddogion a Hyfforddwyd yn Arbennig. Unwaith eto, fodd bynnag, roedd tystiolaeth o ddiffyg eglurder o ran pwy oedd yn gyfrifol am gysylltu â'r dioddefwr ar bob cam.

Bydd Swyddog Gofal Tystion yn cynnal asesiad o anghenion gyda'r dioddefwr ac yn trefnu ymweliad ymgyfarwyddo cyn y llys gyda'r Gwasanaeth Tystion. Mewn rhai Ardaloedd, mae'r Swyddog Ymchwilio neu'r Swyddog a Hyfforddwyd yn Arbennig yn bresennol yn ystod yr ymweliad cyn y llys hefyd. Anaml y mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn bresennol yn yr ymweliad a dim ond lleiafrif o'r ffeiliau a ddarllenwyd a oedd yn cynnwys gwybodaeth am ymweliad. Mae angen cynnal ymweliadau ymgyfarwyddo cyn y llys i ddioddefwyr mewn ffordd systematig gan fod ymchwil wedi dangos eu gwerth i ddioddefwyr. Lle y bo'n ymarferol, dylent lywio penderfyniadau ar unrhyw fesurau arbennig i'w ceisio.

Cafwyd gwelliant sylweddol yn y cyswllt gan gwnsleriaid â dioddefwyr a thystion ac ymwybyddiaeth dda gan weithwyr achos o'r angen i sicrhau bod cwnsleriaid yn siarad â dioddefwyr yn y llys. Yn ystod arsylwadau llys, gwelwyd enghreifftiau o arferion da, gyda'r cwnsleriaid, y gweithiwr achos a'r heddlu yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm.

Cyflwynwyd y cynllun Datganiad Personol Dioddefwr (VPS) yn 2001. Ei ddiben yw rhoi llais i ddioddefwyr yn yr achos. Ar y cyfan, roedd gan gyfweleion ymwybyddiaeth dda o'r cynllun a nododd cwnsleriaid y byddent bob amser yn sicrhau bod Datganiad Personol Dioddefwr yn cael ei roi gerbron barnwr wrth iddo ddedfrydu. Fodd bynnag, nid oedd Datganiad Personol Dioddefwr mewn

ychydig dros hanner yr achosion yn y sampl o ffeiliau a ddarllenwyd. Roedd y dull o gymryd y datganiad a'i amseriad yn amrywio hefyd ac nid oedd yn glir bob amser pa un a oedd Datganiad Personol y Dioddefwr wedi'i ddefnyddio mewn gwirionedd.

Roedd dealltwriaeth dda iawn ymhlith erlynwyr o fesurau arbennig yn gyffredinol, a dangosodd y dystiolaeth o'r ffeiliau a ddarllenwyd eu bod wedi'u hystyried yn briodol mewn nifer fawr o achosion. Yr hyn a oedd yn llai amlwg o'r ffeiliau oedd gwybodaeth gefndir a gwblhawyd ar anghenion a galluoedd dioddefwyr. Yn ogystal, anaml y cynhaliwyd cyfarfodydd mesurau arbennig cynnar rhwng yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron mewn gwirionedd, gan olygu i geisiadau gael eu gwneud ar sail yr asesiad cychwynnol o anghenion y dioddefwyr a gynhaliwyd gan yr heddlu.

Ar hyn o bryd, nid oes trefniadau ffurfiol ar gyfer monitro materion o ran amrywiaeth neu natur ddiamddiffyn, er y gwneir hyn fesul achosion unigol i nodi gallu ac angen unigol. Mae'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cofnodi ethnigrwydd dioddefwyr a throseddwyr, ond nid oedd tystiolaeth bod y wybodaeth hon yn cael ei choladu a'i defnyddio.

Dangosodd dadansoddiadau o'r data a ddeilliodd o'r ymarfer darllen ffeiliau i fater o ran natur ddiamddiffyn neu amrywiaeth gael ei nodi mewn cyfran uchel o achosion (42.4 y cant). Roedd y materion a nodwyd amlaf o ran natur ddiamddiffyn yn ymwneud ag iechyd meddwl ac anawsterau dysgu. Dangosodd gwaith dadansoddi pellach fod y gyfradd gollfarnu ddilynol ar gyfer yr achosion hyn yn is na'r gyfradd gollfarnu gyffredinol ar gyfer y sampl berthnasol. Er bod maint y samplau gwirioneddol yn fach a bod yn rhaid trin y canfyddiadau gyda gofal, pan y'u hystyrir ar y cyd ag ymchwil arall, maent yn nodi canlyniad gwaeth tebygol ar gyfer grŵp o bobl sy'n arbennig o ddiamddiffyn. Yn ogystal, o gofio cyfran uchel yr achosion o fewn y sampl gyffredinol o ffeiliau lle y nodwyd mater o ran amrywiaeth neu natur ddiamddiffyn, mae'n hanfodol sicrhau gwelliannau wrth nodi dioddefwyr diamddiffyn a dioddefwyr a ddychrynir yn gynnar ac y cynhelir cyfarfodydd mesurau arbennig cynnar rhwng yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

## Diogelu plant

Mae diogelu plant yn rhan annatod o broses arolygu HMIC. Yn 2004, cynhaliodd HMIC arolygiad thematig o'r broses o ymchwilio i achosion o gam-drin plant a'u hatal. Cynigiodd yr adroddiad arolygu, a gyhoeddwyd yn 2005, saith argymhelliad ar gyfer gwella. Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion hyn wedi'u hymgorffori ym mhroses asesu sylfaenol flynyddol HMIC, a ddefnyddir i asesu perfformiad heddluoedd.

O'r ymarfer darllen ffeiliau, lle yr oedd achos yn ymwneud â dioddefwr a oedd yn blentyn o dan 18 oed, roedd y gyfradd gollfarnu yn 72.4 y cant o'r achosion a gyhuddwyd yn y sampl. Mae hon yn gymhareb lawer uwch na'r gymhareb ar gyfer achosion yn ymwneud â dioddefwyr sy'n oedolion ac mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau gwaith ymchwil.

Mae'n arferol i gyfweliadau â dioddefwyr sy'n blant gael eu recordio ar fideo. Ystyrir bod pob plentyn o dan 17 oed yn ddiamddiffyn o dan Ddeddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 ac yn gymwys i gael mesurau arbennig. O ganlyniad, caiff y mwyafrif o gyfweliadau sydd wedi'u recordio eu dangos yn y treial, ac nid oes angen i'r plentyn roi tystiolaeth fyw ac mae'n ymddangos dros gyswllt teledu er mwyn ei groesholi. Ymddengys bod yr egwyddor bod plentyn yn rhoi tystiolaeth yn y ffordd hon yn gwbl dderbyniol, heb unrhyw awgrymiadau, fel y gwnaed yn achos oedolion, bod ymddangos dros gyswllt byw yn gwanhau effaith adroddiad y dioddefwr.

Ers yr arolygiad a gynhaliwyd yn 2002, mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 wedi cyflwyno amrywiaeth o droseddau sy'n ymwneud â phlant yn benodol. Nid oes angen prawf o ddiffyg cydsyniad lle y ceir trosedd o weithred rywiol â phlentyn o dan 16 oed. Mae'r drosedd yn debyg i'r drosedd flaenorol o gyfathrach rywiol anghyfreithlon â merch o dan 16 oed, ond mae cosb lymach yn gysylltiedig â hi – 14 mlynedd yn y carchar yn hytrach na dwy.

Pe na chaed cydsyniad, dylai'r cyhuddiad fod yn gyhuddiad o drais yn groes i adran 1 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. Mae treisio plentyn o dan 16 oed a gweithred rywiol â phlentyn o dan 16 oed yn droseddau ar wahân y gellir gwahaniaethu rhyngddynt, ac efallai y byddai'n briodol cael cowntiau amgen ar y ditiad. Bydd yn ofynnol i'r erlynwyr ystyried y cyhuddiadau a ddewisir a'r pledion a dderbynnir yn ofalus, o gofio nerth y dystiolaeth, cynnig ple i'r drosedd lai a'r posibilrwydd o ryddfarn ar y ddwy drosedd.

Bydd natur a graddau cydsyniad gwirioneddol, a'r gwahanol ddedfrydau mwyaf, yn effeithio ar liniaru a'r ddedfryd. Cyflawnir llawer o droseddau yn ymwneud â dioddefwyr sy'n blant gan bobl sy'n hŷn na hwy y maent yn eu hadnabod neu aelodau o'r teulu, ac mae'n rhaid gwneud penderfyniad ar bob achos yn unigol. Amlygir hyn fel mater lle y byddai o fudd i erlynwyr gael mwy o ganllawiau, y gellid eu cynnwys yn yr hyfforddiant i arbenigwyr trais.

## Gweithio mewn partneriaeth

Mae gweithio mewn partneriaeth yn gysyniad sydd wedi ymsefydlu'n gadarn a gwelwyd manteision ymarferol sylweddol ar draws amrywiaeth o faterion cyfiawnder troseddol yn sgîl cydweithredu'n agos â phartneriaid a chydweithio. Yn yr adolygiad hwn, gwelwyd nifer o enghreifftiau da ar lefel weithredol o erlynwyr a swyddogion yr heddlu yn cydweithio'n agos, â'i gilydd ac ag aelodau asiantaethau eraill. Roedd hyn yn cynnwys cyfnewidfeydd hyfforddiant ar y cyd, rhannu gwybodaeth, monitro hynt achosion ar y cyd ac atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth. Fodd bynnag, roedd llai o dystiolaeth o gydweithio ag asiantaethau partner ar lefel strategol. O ganlyniad, roedd rhai sefydliadau yn gweithio ar eu pennau eu hunain, heb fod yn ymwybodol o waith partneriaid eraill. Yn ogystal, ar y cyfan, nid oedd fforymau lle y gallai **pob** asiantaeth (rhai statudol a gwirfoddol) ddod at ei gilydd yn rheolaidd i drafod materion yn ymwneud â'i chyfraniad i'r broses cyfiawnder troseddol.

Mae *The National Service Guidelines for Developing Sexual Assault Referral Centres*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2005, yn amlygu pwysigrwydd gwaith cydgysylltu rhwng asiantaethau er mwyn sicrhau ymateb cynhwysfawr i ddioddefwyr trais rhywiol, gyda chyfranogiad y sector gwirfoddol, yr awdurdod lleol, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Phartneriaethau Gostwng Troseddau ac Anhrefn, yn ogystal â'r heddlu a gwasanaethau iechyd. Mae angen datblygu gwaith partneriaeth yng nghyd-destun trais a thrais rhywiol mewn ffordd fwy ffurfiol a strwythuredig bellach ar lefel strategol ar draws heddluoedd, Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau eu cydgysylltu a'u datblygu'n effeithiol.

## Athreulio

Er bod ffigurau ymchwil yn rhoi darlun o lefelau athreulio uchel a chyfraddau collfarnu sy'n gostwng yng nghyd-destun cyfraddau datrys sy'n gostwng, mae ffigurau'r Swyddfa Gartref yn dangos bod nifer wirioneddol y collfarnau yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn – o 640 yn 2002 i 728 yn 2005 (trais merch yn unig). Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd hwn yn cyfateb i'r nifer gynyddol o droseddau y rhoddir gwybod amdanynt, ac felly mae'r bwlch o ran cyfiawnder i ddioddefwyr trais yn cynyddu.

Dros y blynyddoedd, yn sgîl yr anghysondebau mawr yn y ffordd yr oedd heddluoedd yn cofnodi ac wedyn yn dosbarthu adroddiadau o drais, roedd yn anodd mesur lefelau troseddau a chymariaethau ar draws heddluoedd yn gywir. Yn ddiau, mae arferion cofnodi gwell o dan Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref a'r Safon Cofnodi Troseddau Genedlaethol wedi arwain at gynnydd yn nifer y troseddau a gofnodwyd, a fydd yn ei dro wedi effeithio ar gyfraddau datrys. Fodd bynnag, erys yr anhawster i fesur yr effaith hon yn gywir, ac felly mae cymharu data cynnar yn uniongyrchol yn annibynadwy.

Mae'r awydd i ddeall athreulio mewn achosion o drais yn parhau. Er ei bod yn bosibl nad yw'n syml mesur athreulio, mae astudiaethau yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn cadarnhau'r bwlch cynyddol o ran cyfiawnder ac yn rhoi negeseuon cyson i bawb sy'n ymwneud ag ymchwilio i droseddau trais a'u herlyn am y pwyntiau allweddol lle y ceir athreulio a'r ffactorau sy'n effeithio arno.

Mae'r adolygiad hwn wedi canfod bod athreulio yn ystod y cam ymchwilio yn dechrau'n gynnar. O'r 752 o droseddau y rhoddwyd gwybod amdanynt a archwiliwyd ar gyfer 2005, roedd 179 wedi'u dosbarthu yn achosion 'dim troseddu' (23.8 y cant). O'r rhain, nid oedd 57 (31.8 y cant) yn cydymffurfio â Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref a dylent fod wedi aros fel troseddau a gofnodwyd. Byddai hyn wedi arwain at gyfanswm cyffredinol o 630 o droseddau a gofnodwyd yn y sampl.

O'r 573 o droseddau a **gofnodwyd yn wirioneddol**, roedd y dioddefwr yn adnabod yr un a ddrwgdybiwyd neu'n gallu ei adnabod ar ôl yr ymchwiliad mewn 491 o achosion (85.7 y cant). O'r achosion hyn, dewisodd y dioddefwr beidio â chwblhau'r broses gychwynnol neu tynnodd gefnogaeth i'r ymchwiliad neu'r erlyniad yn ôl yn o leiaf 102 o achosion (20.8 y cant). Mae'r rhesymau dros

achosion o dynnu'n ôl o'r fath wedi'u dogfennu'n dda mewn ymchwil, a chydnabyddir y camau a gymerwyd gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i annog a helpu dioddefwyr trais i barhau i fod yn rhan o'r broses cyfiawnder troseddol. Er enghraifft, mae cyflwyno rôl y Swyddog a Hyfforddwyd yn Arbennig, Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, Unedau Gofal Tystion, cydgysylltwyr trais Gwasanaeth Erlyn y Goron, cyfreithwyr arbenigol a gweithwyr achos arbenigol, yn ddi-au, yn arwain at welliannau o ran ymateb y system cyfiawnder troseddol mewn achosion o drais ac ymagwedd fwy proffesiynol tuag at drin dioddefwyr a gofalu amdanynt. Fodd bynnag, nid yw 'bwriad' yn troi'n arfer cwbl effeithiol ar lawr gwlad eto, ac mae sawl anhawster sylfaenol yn parhau sy'n rhwystro'r posibilrwydd o gael gwelliannau mwy sylweddol a pharhaus.

O'r 389 o achosion lle y cafwyd cefnogaeth barhaus gan y dioddefwr, cyhuddwyd y troseddwr mewn 160 ohonynt (41.1 y cant). Y prif resymau pam na chyhuddwyd neb yn yr achosion eraill (229) oedd nad oedd digon o dystiolaeth. Nid oedd yn bosibl cadarnhau o'r adroddiadau o'r troseddau pa un a ellid bod wedi gwneud mwy i adeiladu'r achos mewn unrhyw un o'r achosion hyn. Fodd bynnag, thema gyson o'r ymarfer darllen ffeiliau oedd yr angen i atgyfnerthu cyfathrebu rhwng pawb sy'n ymwneud ag ymchwilio i droseddau trais a'u herlyn, a'u cydgysylltu, er mwyn sicrhau bod ymchwiliadau mor drwyadl â phosibl. Ceir cefnogaeth frwd i ddatblygu ymagwedd 'tîm yr erlyniad' lle mae'r heddlu a'r erlynwyr, ar y lleiaf, yn cydweithio'n agos i adeiladu ac atgyfnerthu achosion.

Yn ystod yr ymarfer darllen ffeiliau, archwiliwyd sampl o 75 o achosion lle y cafodd diffynnydd ei gyhuddo a'i gyflwyno i broses y llys. Dangosodd canlyniadau achosion yn y sampl hon na chynigiodd Gwasanaeth Erlyn y Goron unrhyw dystiolaeth ar ôl hynny mewn 17 o achosion (22.7 y cant) (gorchmynnodd y barnwr ryddfarnau) ac i 19 o ddiffynyddion (25.6 y cant) gael eu rhyddfarnu ar ôl treial, gan gynnwys 2 yn unol â chyfarwyddyd y barnwr (cyfarwyddodd y barnwr y rhyddfarnau). Cafwyd cyfanswm o 39 o gollfarnau (52.0 y cant), yn cynnwys 20 o bledion euog a 19 o achosion lle y cafwyd y diffynnydd yn euog gan y rheithgor.

Mae archwiliad manylach o'r achosion unigol yn y sampl hon yn amlygu'r pwysigrwydd y caiff achos ei drin o'r dechrau i'r diwedd gan un cyfreithiwr arbenigol sydd â phrofiad gwirioneddol mewn achosion o drais, er mwyn adeiladu achos cryf ar y cyd â'r Swyddog Ymchwilio a sicrhau ymagwedd barhaus tuag at yr achos yn nhîm yr erlyniad. Nodwedd bwysig arall yw'r angen i sicrhau y ceisir ail farn hyddysg gan gyfreithiwr arbenigol ym maes trais mewn perthynas â phenderfyniadau i roi'r gorau i erlyniad neu i beidio ag erlyn. Mae'n rhaid i waith paratoi achos ddarparu i dystiolaeth y dioddefwr yn yr achos gael ei chyflwyno yn y ffordd orau posibl, ac mae'n rhaid dilyn mesurau deddfwriaethol mewn perthynas â derbynioldeb tystiolaeth, er enghraifft tystiolaeth achlust a 'chymeriad drwg', neu mewn perthynas â chyfyngiadau ar dderbynioldeb hanes rhywiol blaenorol, yn drwyadl ond yn deg.

## ARGYMHELLION

### Argymhelliad 1

Bod heddluoedd yn cynnwys archwiliadau 'dim troseddau' trais yn benodol yn y prosesau archwilio rheolaidd er mwyn sicrhau bod pob achos 'dim troseddau' yn gynaliadwy ac yn cydymffurfio â Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref.

### Argymhelliad 2

Bod heddluoedd yn:

- adolygu rhestrau galw allan a rotâu Swyddogion a Hyfforddwyd yn Arbennig er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol, eu bod yn diwallu anghenion a'u bod yn cael eu cynnal yn rheolaidd;
- monitro'r gwaith o leoli'r Swyddogion a Hyfforddwyd yn Arbennig yn ffurfiol er mwyn sicrhau bod y llwyth gwaith yn deg a bod gan bob Swyddog a Hyfforddwyd yn Arbennig y cyfle i gymryd rhan yn y gwaith a chynnal ei sgiliau;
- adolygu strwythurau goruchwylio Swyddogion a Hyfforddwyd yn Arbennig er mwyn sicrhau y diffinnir cyfrifoldeb rheoli llinell dros Swyddogion a Hyfforddwyd yn Arbennig ar ôl eu lleoli ac yn ystod ymchwiliadau yn glir.

### Argymhelliad 3

Bod heddluoedd yn cyhoeddi canllawiau i swyddogion ymateb cyntaf ar y camau i'w cymryd pan gânt eu galw i leoliad trais, yn cynnwys cymryd adroddiad cychwynnol gan ddioddefwr, yn unol â chanllawiau Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, *Guidance on Investigating Serious Sexual Offences*.

### Argymhelliad 4

Bod Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, mewn ymgynghoriad â Gwasanaeth Erlyn y Goron, yn ailystyried y gweithdrefnau ar gyfer cymryd datganiad dioddefwr mewn achosion o drais, gan ystyried y gwaith o werthuso'r cynlluniau peilot ar gyfer y mesurau arbennig perthnasol a dyletswyddau o ran datgelu deunydd nas defnyddiwyd.

### Argymhelliad 5

Bod heddluoedd yn sicrhau bod prosesau adolygu ar waith ar gyfer ymchwilio i drais a bod ansawdd yr adolygiadau yn cael ei fonitro.

### Argymhelliad 6

Sicrheir y canlynol pan geisir barn arbenigol gan Feddyg Fforensig:

- bod heddluoedd yn sicrhau bod holl dystiolaeth yr erlyniad yn cael ei hanfon at y Meddyg Fforensig cyn gynted ac y bo'n ymarferol resymol;
- bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn sicrhau:
  - y cynhwysir y Meddyg Fforensig yn y gynhadledd gyda'r erlynydd, y cwnsler a'r swyddog yn yr achos oni cheir rhesymau penodol dros beidio â gwneud hynny;
  - y gelwir ar y Meddyg Fforensig fel tyst byw mewn treial, oni cheir rhesymau ystyrlon dros beidio â gwneud hynny.

### Argymhelliad 7

Y dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron:

- bennu safon ar gyfer rôl cyfreithiwr arbenigol mewn achosion o drais a dylai ddarparu hyfforddiant priodol er mwyn cyflawni hyn;
- sicrhau bod achrediad arbenigol yn cael ei adolygu'n barhaus;
- gwella rôl y cydgysylltydd trais Ardal drwy ddiffinio'r profiad a'r cymhwysedd sydd eu hangen, a thrwy neilltuo amser penodol i'r rôl;
- awdurdodi cydgysylltwyr trais i samplu ffeiliau trais mewn ffordd systematig er mwyn:
  - gwirio ansawdd y broses o wneud penderfyniadau a'r broses o weithredu argymhellion penodol adroddiad 2002;
  - nodi unrhyw bwyntiau dysgu;
  - dosbarthu canlyniadau ar draws yr Ardal, yn arbennig i benaethiaid unedau a Phrif Erlynwyr y Goron, a rhannu materion perthnasol â'r heddlu.

### Argymhelliad 8

Bod heddluoedd a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn sicrhau y cynhelir ymgynghoriad llawn a chynnar o achosion o drais rhwng y Swyddogion Ymchwilio a'r erlynydd arbenigol mewn achosion o drais.

### Argymhelliad 9

Bod Prif Erlynwyr y Goron yn sicrhau bod un erlynydd arbenigol yn rhan o erlyniad trais o'r dechrau i'r diwedd, ac yn atebol amdano. Dylid cynnal ymgynghoriad ag ail arbenigwr os cynghorir na ddylid cymryd camau pellach neu os rhoddir y gorau i erlyniad, a dylid cofnodi'r ymgynghoriad a dylid nodi enw'r ail arbenigwr.

### Argymhelliad 10

Bod Prif Erlynwyr y Goron yn sicrhau y cynhelir cynhadledd gyda chwnsler y treial a'r swyddog yn yr achos ym mhob achos lle y ceir honiad o drais. Mae hyn yn hanfodol pan ystyrir rhoi'r gorau i achos ar gam hwyr, neu i dderbyn pleon i gyhuddiadau amgen, er mwyn dadansoddi'r dystiolaeth ac archwilio ffyrdd o oresgyn unrhyw anawsterau.

### Argymhelliad 11

Bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cynhyrchu ac yn dosbarthu rhestr wirio trais i fynd i'r afael â'r holl faterion perthnasol ar y cam cyngor.

### Argymhelliad 12

Bod Prif Erlynwyr y Goron yn sicrhau y ceir parhad o ran y cwnsler, yn ogystal ag erlynydd arbenigol, drwy gydol yr achos, ac y dylai'r gweithiwr achos yn yr achos fod yn y llys drwy gydol y treial.

Her Majesty's Inspectorate of Constabulary
Ashley House
2 Monck Street
London SW1P 2BQ

Mae'r adroddiad hefyd ar gael yn Saesneg o wefan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi:
www.inspectorates.homeoffice.gov.uk/hmic

Cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2007.

Argraffwyd gan y Swyddfa Hysbysrwydd Ganolog.

ⓗ Hawlfraint y Goron 2007

276571